MAI 2023

# CYLCHLYTHYR ADDYSG, DIWYLLIANT A DATBLYGU SEFYDLIADOL

EICH DIWEDDARIAD MISOL AR DDYSGU A DATBLYGU

Am unrhyw ymholiadau, cysylltwch â **cav.ecod@wales.nhs.uk**

## Yn y rhifyn hwn...


01 ONAP / Recriwtio Yn Seiliedig Ar Werthoedd

02 Sgiliau Rheoli Hanfodol

03 Sgiliau Camau Cyntaf i Reol

04 Cymorth Cymwysiadau Digidol / Ysgol Haf 2023

05 Gwneud I Bob Cyswllt Gyfrif

06 Arfarniad Yn Seiliedig Ar Werthoedd

07 Cyn Ymddeol

08 Diwrnodau Hyfforddiant Diabetes

09 Talking Health Leadership

10 Sut i Dynnu'n ôl o Sesiwn ar ESR

11 Modiwlau hyfforddi gorfodol newydd i bob aelod o staff

12 Diweddariadau Allweddol

12 Gwybodaeth Allweddol

13 Prif Fanylion Cyswllt ECOD

# DIWEDDARIAD ONAP

Mae ECOD wedi croesawu Richard Hinge i'r tîm. Mae Richard yn nyrs brofiadol a fydd yn gweithio fel hwylusydd sgiliau clinigol, gan gefnogi’r gwaith o gyflwyno’r rhaglen OSCE ar gyfer nyrsys rhyngwladol.

Mae'r tîm Addysg Nyrsys Rhyngwladol wedi symud o Adain Glan-y-Llyn i ganolfan dros dro ar Ward Gwenwyn a'r hen Uned Ffeibrosis Systig. Rydym yn ddiolchgar iawn i’r Bwrdd Clinigol Meddygaeth am ein cefnogi gyda'r cam dros dro hwn, gan ein galluogi i barhau i ddarparu addysg glinigol sy'n seiliedig ar efelychu.

Mae 445 o nyrsys bellach wedi cwblhau'r rhaglen OSCE ac wedi cyflawni cofrestriad NMC.

# RECRIWTIO YN SEILIEDIG AR WERTHOEDD

Mae Recriwtio yn Seiliedig ar Werthoedd (VBR) yn ddull o ddenu a recriwtio myfyrwyr, hyfforddeion a gweithwyr ar y sail bod eu gwerthoedd a’u hymddygiad yn cyd-fynd â rhai’r sefydliad. Nod y sesiwn hon yw rhoi'r sgiliau a'r offer i bob rheolwr recriwtio i gynnal proses recriwtio yn seiliedig ar werthoedd.

**Y GYNULLEIDFA DARGED:**
Pob rheolwr sy’n recriwtio o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro

**AMCANION:**

- Deall sut y caiff gwerthoedd eu defnyddio ar draws pob agwedd ar y broses recriwtio
- Sut a beth i’w baratoi ar gyfer recriwtio yn seiliedig ar werthoedd, gan ddefnyddio proffiliau llwyddiant
- Technegau cyfweld sylfaenol
- Sut i gynnal proses gyfweld yn seiliedig ar werthoedd a dogfennaeth

**SESIYNAU SYDD AR GAEL:**

| | | |
|---|---|---|
| 7-Meh-2023 | 14:00 - 15:30 | MS Teams |
| 2-Gorff-2023 | 14:00 - 15:30 | MS Teams |
| 20-Medi-2023 | 11:00 - 12:30 | MS Teams |

**SUT I DREFNU LLE:**
I drefnu lle ar un o'r sesiynau hyn, gwnewch hynny drwy hunangofrestru ar ESR - cliciwch yma i fynd i'r cwrs

# SGILIAU CAMAU CYNTAF I REOL & SGILIAU RHEOLI HANFODOL

I ddod o hyd i'r un sy'n cyfateb orau i chi, gweler dadansoddiad o'r rhaglenni a'r modiwlau isod.

## Sgiliau Rheoli Hanfodol

Nod y rhaglen hon yw datblygu'r sgiliau hanfodol sydd eu hangen ar reolwyr i reoli eu hunain, eu timau a'u hadnoddau yn effeithiol. Drwy gydol eich amser ar y rhaglen, byddwch yn cael cipolwg ar y sgiliau sydd eu hangen i reoli eraill ac yn cael effaith uniongyrchol ar ddarparu gofal diogel a thosturiol drwy wella perfformiad unigolion a thimau.

Mae'r rhaglen yn cynnwys 5 modiwl ac yn ymdrin ag ystod o bynciau gwahanol sy'n addas ar gyfer rheoli timau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd hefyd gennych fynediad at ystorfa ar-lein, a fydd yn darparu fideos, erthyglau, dogfennau, a deunyddiau ychwanegol i'ch helpu i ddatblygu a gwella eich sgiliau rheoli.

**Y Gynulleidfa Darged:** Y rhai sy'n newydd i reoli pobl yn BIP Caerdydd a'r Fro e.e. wedi symud i rôl yn ddiweddar lle mae pobl yn adrodd yn uniongyrchol iddynt neu sy'n newydd i'r sefydliad mewn rôl sydd â chyfrifoldebau rheoli llinell.

**Modiwl 1 -** Eich Rôl fel Rheolwr

**Modiwl 2 -** Gofalu am ein Pobl a'n Diwylliant

**Modiwl 3 -** - Rheoli Ein Pobl a'n Diwylliant

**Modiwl 4 -** Rheoli Ein Hadnoddau

**Modiwl 5 -** Gofalu am ein Cleifion Drwy Brosesau Da



# Sgiliau Camau Cyntaf i Reol

O fewn unrhyw sefydliad, nid y GIG yn unig, y rôl reoli lefel gyntaf yw un o'r pwysicaf fwy na thebyg. Mae'r gallu i ddeall a chyfathrebu'n effeithiol ag ystod eang o bobl yn hanfodol. Waeth beth fo'u safle sefydliadol neu rôl, gall dylanwad aelodau staff fynd y tu hwnt i'w tîm uniongyrchol ac effeithio ar ddarpariaeth gwasanaethau. Mae'r rhaglen hon wedi'i chynllunio i arfogi goruchwylwyr, arweinwyr tîm a darpar reolwyr newydd a phrofiadol yn BIP Caerdydd a'r Fro gyda mwy o hunanymwybyddiaeth a dealltwriaeth o'u heffaith bersonol.

Mae'r rhaglen yn cynnwys 5 modiwl ac yn ymdrin ag ystod o bynciau gwahanol sy'n addas ar gyfer rheoli timau o fewn Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro. Bydd hefyd gennych fynediad at ystorfa ar-lein, a fydd yn darparu fideos, erthyglau, dogfennau, a deunyddiau ychwanegol i'ch helpu i ddatblygu a gwella eich sgiliau rheoli.

**Gynulleidfa Darged:** Darpar reolwyr pobl, arweinwyr tîm a goruchwylwyr nad ydynt eto mewn rolau rheoli llinell ffurfiol ond sy'n ei ystyried fel cam nesaf yn eu gyrfa. Bydd y rhaglen hon yn eu helpu i gael mwy o ymwybyddiaeth o'u heffaith bersonol ac i ddechrau datblygu eu sgiliau rheoli.

**Modiwl 1 -** Trefnu Eich Hun ac Eraill

**Modiwl 2 -** Gweithio gydag Eraill

**Modiwl 3 -** Datblygu Cyfathrebu

**Modiwl 4 -** Polisïau a Gweithdrefnau

**Modiwl 5 -** Creu Amgylchedd Gwaith Cadarnhaol

**Os hoffech fynegi eich diddordeb mewn mynychu'r rhaglenni, dilynwch y ddolen hon https://forms.office.com/r/nMHR9txh7n neu sganiwch y cod QR isod.**

# CYMORTH CYMWYSIADAU DIGIDOL

### I Weinyddwyr sydd eisiau gwella eu sgiliau TG

Mae'r rhaglen hon ar gyfer ymgeiswyr sy'n gweithio mewn swyddfeydd digidol. Efallai eu bod yn cefnogi tîm sy'n gweithio'n ddigidol, gan ddefnyddio systemau yn y cwmwl megis Microsoft Office 365 neu Google for Business.
Efallai bod yr ymgeisydd yn defnyddio'r systemau presennol ond hoffai gynyddu ei ymwybyddiaeth o dechnoleg gan gefnogi eraill a'u busnes i symud ymlaen mewn byd gwaith digidol.
Dylai'r dysgwr fod â chyfrifoldebau megis cymorth prosiect, paratoi dogfennau a phrosesu data gan ddefnyddio meddalwedd taenlen.

Os oes gennych ddiddordeb yn y rhaglen hon, cysylltwch â Suzanne Gardner, Gweinyddwr Prentisiaeth ac Ehangu Mynediad

**E-bost:** suzanne.gardner@wales.nhs.uk
**Rhif ffôn:** 029 21 8 47834



# YSGOL HAF ARWEINYDDIAETH UN GWASANAETH CYHOEDDUS CYMRU 2023

### Ysgol Haf 2023 - gwnewch gais nawr

**DYDDIAD CAU:** 9 Mai

**DYDDIADAU:** 26 i 30 Mehefin 2023

**THEMA:** 'Cefnogi arweinwyr heddiw i greu yfory mwy disglair i Wasanaethau Cyhoeddus Cymru - dathlu'r 10 mlynedd'

Gan ddathlu ei deunawfed flwyddyn, rydyn ni'n falch iawn o gyhoeddi y byddwn yn cynnal Ysgol Haf fyw eleni. Mae'r Ysgol Haf yn brofiad dysgu preswyl dwys, 5 diwrnod o hyd, sy'n dod ag arweinwyr ac uwch reolwyr ynghyd i fynd i'r afael â materion allweddol ar bwnc penodol yn ymwneud ag arweinyddiaeth.

Mae Ysgol Haf Arweinyddiaeth Un Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru wedi'i chynllunio i roi'r cyfle i chi adolygu ac adnewyddu eich sgiliau, adeiladu gwybodaeth newydd a chael mewnwelediad i'ch ymarfer arwain. Mae'n rhoi cyfle i archwilio ffyrdd arloesol o 'gyflwyno'r busnes', gan ddefnyddio cyfoeth o wybodaeth a phrofiad byd-eang.

**Cliciwch yma am fwy o wybodaeth**

# GWNEUD I BOB CYSWLLT GYFRIF

## BETH YW MECC?

Mae Gwneud i Bob Cyswllt Gyfrif (MECC) yn ymwneud â helpu pobl i wella eu hiechyd a'u lles trwy roi'r offer iddynt wneud dewisiadau iach o ran eu ffordd o fyw fel rhoi'r gorau i smygu, bwyta'n iachach a gwneud mwy o ymarfer corff.

Mae egwyddor MECC yn syml. Nid yw'n ymwneud ag ychwanegu at eich llwyth gwaith. Yn hytrach, mae'n cydnabod y ffaith bod gan ein sefydliad gannoedd o gysylltiadau â'r cyhoedd bob dydd ac mae gennym y gallu i ddefnyddio'r cysylltiadau hynny i helpu i newid ymddygiad pobl er gwell.

## HYFFORDDIANT MECC

Mae BIP Caerdydd a'r Fro yn darparu hyfforddiant MECC, sy'n cynnig cyngor ymarferol ar sut i fanteisio ar sgyrsiau, a sut a ble i gyfeirio pobl i'w helpu i wneud newidiadau cadarnhaol i'w hymddygiad.
Gwyddom fod mwyafrif y staff eisoes yn cael y mathau hyn o sgyrsiau yn rheolaidd. Fodd bynnag, bydd hyfforddiant MECC yn sicrhau bod dull gweithredu cyson ar draws y BIP.
Mae dwy lefel o hyfforddiant ar gael i aelodau staff BIP.

### LEFEL UN

- Trosolwg sylfaenol o sgwrs iach, cyflwyniad i'r sgiliau ymarferol, a gwybodaeth sylfaenol am y pynciau ffordd o fyw.

### YN ADDAS I

- Unrhyw un sy'n dod i gysylltiad rheolaidd â phobl ac sydd eisiau gwybod mwy am MECC.
- Y rhai sydd eisoes yn cael sgyrsiau iach ond sydd eisiau sesiwn ddiweddaru.
- Cyn-ddysgu cyn mynychu hyfforddiant wyneb yn wyneb lefel 2.

### RHAGOR O WYBODAETH

Mae e-ddysgu ar gyfer lefel un ar gael drwy'r <u>ddolen hon</u> ac mae'n cymryd tua 40 munud i'w gwblhau.

### LEFEL DAU

- Trosolwg byr o'r pynciau ffordd o fyw.
- Y ffocws ar ddatblygu sgiliau a thechnegau cyfweld ysgogol.
- Archwilio sut bydd y technegau'n cael eu cymhwyso'n ymarferol mewn sefyllfaoedd gwahanol.

### YN ADDAS I

- Yn addas iawn (ond nid yn unig) i weithwyr iechyd proffesiynol sy'n dymuno cefnogi pobl i newid eu hymddygiad.

### RHAGOR O WYBODAETH

Mae'r hyfforddiant hwn yn cymryd 2.5 awr wyneb yn wyneb. Mae gennym gwrs yn Nhŷ Coetir ar 13-06-2023 9.30 – 12pm. I gadw lle, dilynwch y <u>ddolen hon</u> neu'r Cod QR:

Gwneud i bob cyswllt gyfrif
Making every contact count

# ARFARNIAD YN SEILIEDIG AR WERTHOEDD

## A YDYCH CHI WEDI CAEL EICH ARFARNIAD YN SEILIEDIG AR WERTHOEDD (VBA)?

ich cyfle CHI ydyw i gael sgwrs agored, adeiladol gyda'ch rheolwr / arfarnwr... Gallwch chi drafod gyda'ch gilydd ble rydych chi nawr yn eich rôl, ble rydych chi eisiau bod a sut i gael eich cefnogi i gyrraedd yno.

## DYDDIADAU HYFFORDDI SYDD AR GAEL:

**DRWY TEAMS:**

15 Mai 2023: 10am - 12pm

19 Meh 2023: 10am - 12pm

7 Medi 2023: 1pm - 3pm

11 Hyd 2023: 10am – 12pm

**TREFNWCH SESIWN DRWY HUNANGOFRESTRU AR ESR YMA**

**Y CYFARFOD VBA;**
Dim ond un rhan o drafodaethau parhaus am eich datblygiad yw hwn... Mae angen i hyn ddigwydd NAWR gyda'ch rheolwr / arfarnwr felly sicrhewch eich bod yn trefnu dyddiad.

**ARATOI AR GYFER Y CYFARFOD VBA**

- Cwblhewch yr asesiad
- Casglwch ychydig o adborth
- Cwblhewch eich cyflawniadau yn erbyn amcanion y llynedd

**DATBLYGIAD CYFLOG - Gwybodaeth Bwysig**

- Gweithredu o fis Hydref 2022
- Bydd angen i chi wybod a oes disgwyl i chi gael cynyddran sy'n effeithio ar gyflog (cam cyflog) ar ôl y dyddiad hwn (na fydd yn digwydd bob blwyddyn oherwydd bandiau cyflog cywasgedig.)
- Os yw'n effeithio ar gyflog, bydd angen i chi gael cyfarfod datblygiad cyflog cyn dyddiad eich cynyddran (cam cyflog) i gytuno ar eich dyfarniad cyflog gyda'ch rheolwr.
- SYLWCH - un elfen bwysig o gael eich dyfarniad cyflog yw eich bod wedi cael VBA a'i fod wedi'i gofnodi ar ESR.

**Cliciwch yma** neu sganiwch y cod QR am adnoddau allweddol

Os ydych eisoes wedi mynychu hyfforddiant ac yr hoffech gael sesiwn ddiweddaru, cysylltwch â CAV.ECOD@wales.nhs.uk

# Cyn Ymddeol

Ydych chi'n ystyried ymddeol, neu oes gennych aelod o staff yn agosáu at oedran ymddeol?




Oeddech chi'n gwybod bod Caerdydd a'r Fro yn hwyluso cwrs cyn ymddeol, sy'n cael ei gynnal gan Affinity Connects?

## Trefnwch le ar gwrs heddi

**'Helpu'r rhai yn y gweithle i wella eu dyfodol yn ariannol.'**





Yn yr Ystafell Ddosbarth (Adeilad Cochrane)

15-Meh-2023 - 9.30am — 3.30pm
21-Gorff-2023 - 9:30am — 3:30pm
29-Awst-2023 - 9.30am — 3.30pm
22-Medi-2023 - 9:30am — 3:30pm
19-Hyd-2023 - 9:30am — 3:30pm
03-Tach-2023 - 9:30am — 3:30pm
07-Rhag-2023 - 9:30am — 3:30pm

*'Addysg ariannol a gwasanaethau cynghori ariannol rheoledig, wedi'u cynllunio'n benodol i helpu'r gweithlu cyfan i wneud penderfyniadau gwybodus am eu harian.'*

I drefnu lle, e-bostiwch chloe.thompson2@wales.nhs.uk gyda'ch e-bost dewisol a'ch dyddiad dewisol.

## Diwrnodau Hyfforddiant Diabetes 2023 ar gyfer Staff Nyrsio Cymwysedig BIP Caerdydd a'r Fro

*Hyfforddiant a argymhellir*

4 Ebrill 2023 08:15-16:30 Canolfan Academaidd YALl – llawr 1af, darlithfa 3

4 Mai 2023 08:15-16:30 Adeilad Cochrane YAC – 2il lawr, ystafell 5

26 Mai 2023 08:15-16:30 Adeilad Academaidd YALl - ystafell i'w chadarnhau

16 Mehefin 2023 08:15-16:30 Adeilad Cochrane YAC -2il lawr, ystafell 5

4 Ebrill 2023 08:15-16:30 Canolfan Academaidd YALl - llawr 1af, darlithfa 1

19 Gorffennaf 2023 08:15-16:30 Canolfan Academaidd YALl - llawr 1af, darlithfa 1

14 Awst 2023 08:15-16:30 Canolfan Academaidd YALl - llawr 1af, darlithfa 1

8 Medi 2023 08:15-16:30 Adeilad Cochrane YAC -2il lawr, ystafell 5

20 Medi 2023 08:15-16:30 Adeilad Cochrane YAC – 2il lawr, ystafell 3

13 Hydref 2023 08:15-16:30 Adeilad Cochrane YAC – 2il lawr, ystafell 5

6 Tachwedd 2023 08:15-16:30 Canolfan Academaidd YALl - llawr 1af, darlithfa 1

21 Tachwedd 2023 08:15-16:30 Canolfan Academaidd YALl - llawr 1af, darlithfa 3

20 Rhagfyr 2023 08:15-16:30 Canolfan Academaidd YALl - llawr 1af, darlithfa 1

Sesiynau wedi'u cyflwyno gan staff diabetes arbenigol, yn manylu ar amrywiaeth o bynciau'n ymwneud â diabetes. Yn cynnwys sesiynau ymarferol
Yn berthnasol i holl staff nyrsio BIPCAF ni waeth beth yw eich maes gwaith

*Trefnwch yr holl hyfforddiant ar ESR*

(Uchafswm o 20/25 o leoedd bob dydd - Unwaith y bydd lleoedd yn llawn, bydd y dyddiadau'n cael eu tynnu oddi ar yr ESR)




## Sesiynau Hyfforddi Diabetes 2023 (3 a 1/2 awr) i HCSW BIP Prifysgol Caerdydd a'r Fro

21 Ebrill 2023 08:30-12:00 Canolfan Academaidd YALl – llawr 1af, darlithfa 2

21 Ebrill 2023 13:00-16:30 Canolfan Academaidd YALl -llawr 1af, darlithfa 2

29 Mehefin 2023 08:30-12:00 Adeilad Cochrane YAC -2il lawr, ystafell 3

29 Mehefin 2023 12:00-16:30 Adeilad Cochrane YAC-2il lawr, ystafell 3

29 Awst 2023 08:30-12:00 Canolfan Academaidd YALl - llawr 1af, darlithfa 1

29 Awst 2023 13:00-16:30 Canolfan Academaidd YALl - llawr 1af, darlithfa 1

26 Hydref 2023 08:30-12:00 Adeilad Cochrane YAC -2il lawr, ystafell 3

26 Hydref 2023 12:00-16:30 Adeilad Cochrane YAC -2il lawr, ystafell 3

4 Rhagfyr 2023 08:30-12:00 YALl Ystafell i'w chadarnhau

4 Rhagfyr 2023 12:00-16:30 YALl Ystafell i'w chadarnhau

- Sesiynau wedi'u cyflwyno gan staff diabetes arbenigol, yn manylu ar amrywiaeth o bynciau'n ymwneud â diabetes
- Yn berthnasol i holl staff nyrsio BIPCAF ni waeth beth yw eich maes gwaith

### *Trefnwch yr holl hyfforddiant ar ESR*

Uchafswm o 20 o leoedd bob dydd - Unwaith y bydd lleoedd yn llawn, bydd y dyddiadau'n cael eu tynnu oddi ar yr ESR

# Talking Health Leadership

## Leadership conference for NHS leaders in mid-level management roles





**Dr Rachel Morris**

Host of the 'You Are Not A Frog' podcast, Former GP & Specialist in Resilience at work

**Richard Burnell**

Award winning Conflict Management Specialist & NHS TEDx Speaker

## 15th June 2023
## 9am - 12pm
## Virtual event - delivered on Zoom

**info@talkingleadership.uk**

# SUT I DYNNU'N ÔL O SESIWN AR ESR

**01** MEWNGOFNODWCH I ESR, A CHLICIWCH AR EICH ENW AR Y DDE UCHAF.




**02** BYDD HYN YN MYND Â CHI I'CH PORTH ESR. EWCH I'CH HAFAN DYSGWR AR Y CHWITH TRWY GLICIO AR 'MY LEARNING'.




**03** DEWISWCH Y TAB 'ENROLMENTS', WRTH YMYL EICH COFRESTRIADAU EDDYSGU.




**04** BYDD HYN YN DANGOS I CHI BOPETH RYDYCH CHI WEDI'I DREFNU, OCHR YN OCHR Â GWYBODAETH AM Y CWRS. GALLWCH GLICIO AR YR AMLEN DAN YR ADRAN 'UNENROL', A FYDD YN EICH TYNNU O'R DOSBARTH




**05** PAN FYDD Y SGRIN ISOD YN YMDDANGOS, DEWISWCH YMATEB PRIODOL O'R GWYMPLEN, AC YNA 'FINISH'.



# MODIWLAU HYFFORDDI GORFODOL NEWYDD I BOB AELOD O STAFF

**Cyn bo hir, bydd y rhain i'w gweld ac yn hygyrch drwy eich matrics cydymffurfio ESR**

## HYFFORDDIANT YMWYBYDDIAETH O'R GYMRAEG

Fel y nodir yn Safonau'r Gymraeg y sefydliad, a'i ymwneud â Strategaeth 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru, mae'n ofynnol i'r sefydliad gynnig cyfle i'w staff ddysgu a deall am yr iaith a'i phwysigrwydd wrth gynnig gofal iechyd o ansawdd.

Bydd yr hyfforddiant yn helpu aelodau o staff i ddeall pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal iechyd a pha gamau y gallant eu cymryd i helpu (hyd yn oed os nad ydyn nhw'n deall y Gymraeg). Mae'r cyfrifiad diwethaf yn dangos bod cynnydd sylweddol wedi bod yn y defnydd o'r iaith yn ardal Caerdydd a'r Fro, sy'n ei gwneud yn un o'r ardaloedd â'r boblogaeth fwyaf o bobl sy'n siarad Cymraeg yng Nghymru gyfan.

Mae'n bwysig i'r sefydliad sicrhau bod pobl sy'n siarad Cymraeg yn y gymuned yn gallu defnyddio'r Gymraeg, os mai dyna yw eu dewis iaith, yn enwedig pan maent yn bryderus, mewn poen ac anesmwythyd.

Bydd modiwl hyfforddi Ymwybyddiaeth y Gymraeg yn helpu staff i gael statws ardderchog ar ddefnyddio'r iaith, y cyfreithiau a'r polisïau sy'n cefnogi ei datblygiad a sut y gall y GIG sicrhau bod cleifion a defnyddwyr gwasanaeth yn gallu cael gofal yn y Gymraeg, os mai dyna yw eu dewis iaith.

Gallwch gael mynediad i'r modiwl hyfforddiant gorfodol newydd hwn drwy ESR – **000 GIG Wales - Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg (Mwy na geiriau**

Os oes gan aelodau o staff ddiddordeb mewn dysgu ymhellach, yn cynnwys dysgu Cymraeg, gallan nhw ymweld â'r dudalen Sharepoint Gymraeg.

## PAUL RIDD ANABLEDDAU DYSGU

Hyfforddiant lefel sylfaen fframwaith Addysg Genedlaethol Anableddau Dysgu. Bydd yr hyfforddiant hwn yn cynorthwyo'r holl staff gofal iechyd i gael y gwerthoedd, y sgiliau, y wybodaeth a'r cymhwysedd cywir sydd eu hangen i sicrhau bod unigolion ag anabledd dysgu yn cael gofal diogel, amserol, effeithlon, effeithiol, teg, sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac sy'n briodol i'w hanghenion. Mae rhagweld ac ystyried yr angen am addasiadau rhesymol yn elfen hanfodol o ddiwallu anghenion iechyd pobl ag anabledd dysgu ac atal marwolaethau y mae modd eu hosgoi. Mae darparu hyfforddiant ymwybyddiaeth i staff gofal iechyd yn ymrwymiad i wella hyder y gweithlu gofal iechyd i ddiwallu anghenion pobl ag anabledd dysgu yng Nghymru.

Gallwch gael mynediad i'r modiwl hyfforddiant gorfodol newydd yma drwy ESR – **000 GIG Wales – Paul Ridd Anableddau Dysgu**

# DIWEDDARIADAU ALLWEDDOL

## OSCE

Cyflawniad gwych! Yn ddiweddar, buom yn dathlu bod ein 445 Nyrs Rhyngwladol yn llwyddiannus wrth basio ei OSCE ac yn ymuno â'r BIP fel nyrs gofrestredig.

## SEFYDLU CORFFORAETHOL

Os hoffech gael gwybod pan fydd dyddiadau newydd ar gael ar gyfer Sefydlu Corfforaethol, cysylltwch â Chloe Thompson i gael eich ychwanegu at y rhestr ddosbarthu.

SYLWCH: rhaid cynnwys cyfeiriad e-bost ar gyfer yr aelod o staff wrth drefnu lle a bydd angen creu cofnod ar ei gyfer ar ESR.

**chloe.thompson2@wales.nhs.uk**

# GWYBODAETH ALLWEDDOL

Rydym bellach yn defnyddio ActionPoint i reoli ymholiadau. Gallwch gyflwyno ymholiadau i ni drwy ActionPoint drwy e-bostio'n uniongyrchol i CAV.ECOD@wales.nhs.uk neu drwy ddefnyddio ActionPoint UltraLite

I drefnu lleoedd ar y cyrsiau mewngofnodwch ar ESR a dilynwch y cyfarwyddiadau

Os hoffech danysgrifio i'r cylchlythyr hwn i'ch cyfeiriad e-bost personol, cofrestrwch yma neu sganiwch y cod QR isod

I drefnu lleoedd yn ESR gan ddefnyddio unrhyw un o'r dolenni yn y cylchlythyr hwn - pan ofynnir i chi - dewiswch 'Employee Self Service; i drefnu lle ar gyfer eich hun neu 'Manager Self Service' i drefnu lle ar gyfer aelodau eich tîm. Os codir y cyfyngiadau cadw pellter cymdeithasol, bydd lleoedd pellach ar gael yn agosach at yr amser

Mae'r Hwb ESR yn argymell defnyddio chwiliwr rhyngrwyd Google Chrome i gwblhau'r modiwlau e-ddysgu yn ESR

# PRIF FANYLION CYSWLLT ECOD

| | | |
|---|---|---|
| Amelia Clark | Ymholiadau Arweinyddiaeth a Rheolaeth<br>Recriwtio yn Seiliedig ar Werthoedd ac Arfarnu<br>Hyfforddi | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47833<br>E-bost: Amelia.Clark@wales.nhs.uk |
| Carrie Bodman | Addysg Nyrsys ac Ymholiadau TNA<br>Cyllid Ymarfer Uwch<br>Cyllid Presgripsiynu Anfeddygol | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47835<br>E-bost: Carrie.Bodman@wales.nhs.uk |
| Chloe Thompson | Ymholiadau Cadw Lle ar y Cwrs<br>Ymholiadau Cyffredinol<br>Archebu Ystafelloedd<br>Sefydlu Corfforaethol | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47834<br>E-bost: CAV.ECOD@wales.nhs.uk |
| Ffion Jenkins | Pwynt Cyswllt ar gyfer NMPP | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47838<br>E-bost: ffion.jenkins2@wales.nhs.uk |
| Kate Powell | Gweinyddiaeth ar gyfer Sgiliau Clinigol | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47834<br>E-bost: CAV.ECOD@wales.nhs.uk |
| Meg McNaughton | Ymholiadau Cadw Lle ar y Cwrs<br>Ymholiadau Cyffredinol<br>Archebu Ystafelloedd | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47834<br>E-bost: CAV.ECOD@wales.nhs.uk |
| Suzanne Gardner | Prentisiaethau<br>Ehangu Mynediad | Rhif Ffôn: (029 21 8) 47460<br>E-bost: Suzanne.Gardner@wales.nhs.uk |
| ESR Hub | Ymholiadau am Fewngofnodi neu Gyfrinair | Rhif Ffôn: 029 20905400 |
| Gweithwyr Cymorth Gofal Iechyd sydd â diddordeb mewn ymgymryd â hyfforddiant nyrsio; trafodwch gyda'ch rheolwr llinell a fydd yn eich cyfeirio at Nyrs Datblygu Ymarfer/Addysgwr Ymarfer eich cyfarwyddiaeth | | |
| Nicola Giles | Ymholiadau Addysg HCSW<br>Trefniadau Ymsefydlu HCSW | Rhif Ffôn: (029 21 8) 26924<br>E-bost: Nicola.Giles@wales.nhs.uk |
| Rob Ledsam | Cyswllt Cwrs ar gyfer Tystysgrif Addysg Uwch Gweithiwr Cymorth Gofal Iechyd | Rhif Ffôn: (029 21 8) 26932<br>E-bost: Robert.Ledsam@wales.nhs.uk |
| Violet Thomas | Datblygiad HCSW | Rhif Ffôn: (029 21 8) 25982<br>E-bost: Violet.Thomas@wales.nhs.uk |
| Practice Facilitator Hub | | Rhif Ffôn: UHW (029 21 8) 42053<br>UHL (029 21 8) 25595 |

**Dilynwch ni ar Twitter! @CAV_ECOD**